PN110 – HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Casglu Gwybodaeth am Gysywllt (Profi, Olrhain, Diogelu)

Rheolwr Data:
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl NP4 6YB
Swyddog Diogelu Data a Rheolaeth Gwybodaeth:
Susan Bullock 01633 647467 E-bost: dpa@torfaen.gov.uk

Casglu data personol – Coronafeirws ac olrhain cysylltiadau
Er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch cwsmeriaid a staff yn ein heiddo, mae gofyn gan Lywodraeth Cymru i ni gasglu eich enw a manylion cyswllt pan fyddwch yn ymweld er mwyn cefnogi rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu Cymru i gyfyngu ar ledaeniad y Coronafeirws. Bydd y wybodaeth yma ond yn cael ei defnyddio i gysylltu â chi os dangosir eich bod efallai wedi bod mewn cysylltiad â rhywun sydd wedi cael prawf cadarnhaol o'r coronafeirws. Mae cysylltu â phobl a allai fod wedi bod mewn cysylltiad â'r feirws yn gam pwysig wrth atal y lledaeniad.

Er mwyn cynorthwyo â ffrwyno'r feirws, byddwn ond yn rhannu'ch data os gofynnir amdano'n uniongyrchol gan y rheiny sy'n cyflenwi strategaeth Profi, Olrhain a Diogelu Cymru. Bydd y wybodaeth hon ond yn cael ei defnyddio gan Wasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu Cymru i gysylltu â chi ac ni fydd yn cael ei defnyddio gennym at unrhyw ddibenion eraill.

Y math o ddata a gesglir

- Eich enw
- Rhif ffôn cyswllt NEU gyfeiriad e-bost
- Dyddiad ac amser cyrraedd a gadael

Y sail gyfreithiol i gasglu'r data yma
O dan gyfraith diogelu data, Erthygl 6(1) (c) RhDDC, mae Rhwymedigaeth Gyfreithiol arnom i gasglu a phrosesu'r wybodaeth bersonol yma er mwyn cydymffurfio â Rheoliad 12 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) Cymru 2020.

Cyfnod cadw data
Bydd eich data personol ond yn cael ei gadw at y dibenion a nodir yn yr hysbysiad preifatrwydd yma ac ni fydd yn cael ei gadw gennym am fwy na 21 diwrnod pan geir gwared arno wedyn mewn ffordd ddiogel yn unol â gweithdrefnau CBST.

Rhagor o wybodaeth
Am fanylion ynglŷn â sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn prosesu gwybodaeth bersonol, ewch i www.torfaen.gov.uk. Gallwch hefyd gael gwybodaeth am eich hawliau o dan RhDDC yn www.ico.org.uk

Mae manylion pellach am y Strategaeth Profi, Olrhain a Diogelu ar gael yma https://llyw.cymru/cadw-cofnodion-ynghylch-staff-cwsmeriaid-ac-ymwelwyr-profi-olrhain-diogelu